**At Sylw Cynghorau Tref a Chymuned, Conwy | To the Attention of Town and Community Councils, Conwy**
Elin Mair Jones<Elinmair@urdd.org>
Conwy

Elin Mair Jones
**Urdd Gobaith Cymru**
Swyddfa'r Urdd,
Neuadd Panton,
Dinbych
LL16 3TL
elinmair@urdd.org / 01745 818602

Hydref / October 2025

| **At Sylw Cynghorau Tref a Chymuned, Conwy** | ***To the Attention of Town and Community Councils, Conwy*** |
|---|---|
| **Annwyl Clerc ac Aelodau'r Cyngor,** | ***Dear Clerk and Council Members,*** |
| Ar ran Pwyllgor Rhanbarth Urdd Gobaith Cymru yng Nghonwy, hoffwn ofyn yn garedig i'ch cyngor ystyried cyfraniad ariannol i gefnogi ein gwaith gyda phlant a phobl ifanc yn eich cymuned. | *On behalf of the Conwy Area Committee of Urdd Gobaith Cymru, I kindly ask your council to consider a financial contribution to support our work with children and young people in your community.* |
| Bob blwyddyn, rydym yn trefnu gweithgareddau gwerthfawr megis gweithdai, clubiau ysgol, teithiau undydd a thramor, penwythnosau preswyl ac Eisteddfodau ac yn cefnogi adrannau ac aelwydydd cymunedol. Mae'r rhain yn meithrin sgiliau, hyder a chyfeillgarwch ymhlith y genhedlaeth nesaf. | *Each year, we organise valuable activities such as workshops, school clubs, day and overseas trips, residential weekends, Eisteddfodau and supporting our comunity clubs. These experiences help nurture skills, confidence, and friendships among the next generation.* |
| Fel mudiad gwirfoddol, rydym yn dibynnu ar roddion i gynnal y gweithgareddau hyn. Byddai unrhyw gyfraniad – boed yn fawr neu'n fach – yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol, gan aros o fewn ardal Conwy i gefnogi'r genhedlaeth nesaf. | *As a voluntary organisation, we rely on donations to sustain these activities. Any contribution – large or small – would make a real difference and will remain within the Conwy area to support the next generation.* |
| Os hoffech ein cefnogi dylid ysgrifennu unrhyw siec yn daladwy i :- Urdd Gobaith Cymru a'i anfon i mi i'r cyfeiriad uchod os gwelwch yn dda. Os byddai'n well gennych | *If you would like to support us, cheques should be made payable to:* ***Urdd Gobaith Cymru*** *and sent to me at the address* |

| | |
|---|---|
| gyfrannu trwy drosglwyddiad banc, cysylltwch â mi am y manylion.<br><br>Diolch o galon am eich ystyriaeth a'ch cefnogaeth.<br><br>Yn gywir,<br><br>**Elin Mair Jones, Swyddog Cymunedol Rhanbarth Conwy** | *above. If you prefer to contribute via bank transfer, please contact me for the details.*<br><br>*Thank you sincerely for your consideration and support.*<br><br>*Yours faithfully,*<br><br>***Elin Mair Jones**, Conwy Region Community Officer* |

Elin Mair Jones
**Urdd Gobaith Cymru**

Swyddog Cymunedol Rhanbarth Conwy | Swyddfa'r Urdd | Neuadd Panton | Dinbych | LL16 3TL
01745818602
07976003322

I archebu gweithgareddau / to book activities : www.urdd.cymru/archebuiac

Outlook

# Eisteddfod yr Urdd Ynys Môn 2026

**From** Lois Jones <loisjones@urdd.org>
**Date** Wed 11/12/2025 7:01 PM
**To** Lois Jones <loisjones@urdd.org>

Eisteddfod a'r Celfyddydau

Tachwedd 2025

At: Gynghorau Tref a Chymuned Cymru

Annwyl Glerc,

**Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru Ynys Môn 2026**

Fel y gwyddoch, mae Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn ymweld ag Ynys Môn ym mis Mai 2026, a bydd plant a phobl ifanc ar draws Cymru yn dod i'r Eisteddfod wedi misoedd o gystadlu yn eu cylch a'u rhanbarth. Fel elusen, mae Eisteddfod yr Urdd yn ddibynnol ar roddion hael

Cynghorau lleol, fyddai'n gallu cyfrannu at ddarpariaeth celfyddydol plant a phobl ifanc eu cymunedau a'u sir.

Mae Eisteddfod yr Urdd yn cynnal dros 250 o Eisteddfodau Cylch a Rhanbarth o fewn holl gymunedau Cymru, gyda dros 90,000 o blant a phobl ifanc yn cystadlu'n frwd. O'r rhain, bydd 15,000 ohonynt yn cyrraedd y rownd derfynol yn yr Eisteddfod Genedlaethol, er mwyn perfformio ar un o brif lwyfannau'r ŵyl, yn ogystal ag ar S4C a BBC Radio Cymru, a chael profiad celfyddydol i'w gofio.

Er mwyn cynnal yr holl Eisteddfodau lleol a gŵyl lwyddiannus, rydym yn ddibynnol ar gefnogaeth unigolion, mudiadau a sefydliadau lleol trwy Gymru gyfan, ond heb y gefnogaeth leol yn ymarferol ac yn ariannol, ni fydd modd i ni gynnal ein arlwy. Fe fydd yr ŵyl yn 2026 yn costio dros £2.4miliwn.

Mae amryw o gynghorau eisoes wedi cyfrannu ac os ydych yn un ohonynt hoffwn ddiolch i chi am eich rhodd. Ond os nad ydych eisoes wedi gwneud, rydym yn gofyn yn garedig i chi fel Cyngor ystyried cyfrannu yn ariannol tuag at yr Eisteddfod er mwyn sicrhau llwyddiant Eisteddfod yr Urdd yn 2026.

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn am eich sylw gan fawr obeithio y byddwch yn tynnu sylw'r cynghorwyr o'r ŵyl ac y byddwch yn gefnogol i'r Eisteddfod. Os hoffech wybodaeth bellach mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir

**Llio Maddocks**
**Cyfarwyddwr yr Eisteddfod a'r Celfyddydau**

Eisteddfod a'r Celfyddydau

November 2025

**To: Town and Community Council in Wales**

Dear Clerk

**Urdd National Eisteddfod Ynys Môn 2026**

As you may be aware, the National Urdd Eisteddfod will be visiting Ynys Môn in 2026, welcoming children and young people from all over Wales after months of competing at local and regional Eisteddfodau. As a charity, the Urdd is more dependent than ever on the generous donations from Town and Community Councils who can support cultural opportunities for children and young people within their region.

The Urdd Eisteddfod holds over 250 local and regional Eisteddfodau in every community in Wales, with over 90,000 children competing annually. Of these competitors, 15,000 will be invited to the final round at the National Urdd Eisteddfod to perform on one of the festival's main stages, as well as on S4C and BBC Radio Cymru.

In order to sustain the local Eisteddfodau and a successful national festival, we are dependent on the support of individuals, organisations and institutions on a local and national level. But without local support, it would not be possible for us to stage our whole provision in its current form. Support is paramount to its success both practical and financial. The Urdd Eisteddfod in 2026 will cost over £2.4million.

Numerous Councils have already donated and we are most grateful for the support, but if your Council has not yet contributed, we would kindly ask you to consider a financial contribution to assist your local appeal committee in order to ensure the success of the Urdd National Eisteddfod in 2026, and support the children who will represent your town or community on the national stage.

I would like to thank you for your time and hopefully you will draw the councillors' attention to the festival and that you will support the Eisteddfod. If you have any further enquiries, please feel free to contact me.

Yours sincerely

**Llio Maddocks**
**Director of the Eisteddfod and Arts**

**Lois Wynne Jones**
Urdd Gobaith Cymru

Cydlynydd Gweinyddol Adran yr Eisteddfod
Gwersyll yr Urdd Glan-llyn, Llanuwchllyn, Y Bala, Gwynedd LL23 7ST

Ffôn / Phone: 01678 541 015

**Ar y we: [www.urdd.cymru/eisteddfod](www.urdd.cymru/eisteddfod)**
Meddyliwch am yr amgylchedd - oes angen argraffu'r e-bost yma?

Outlook

**Community Council Appeal 2025 / Apêl Cyngor Cymunedol 2025**

**From** Wales Air Ambulance <grants@walesairambulance.com>
**Date** Fri 10/24/2025 4:20 PM
**To** Trefriw Community Council <clerk@trefriwcommunitycouncil.co.uk>

Elusen Ambiwlans Awyr CYMRU | WALES Air Ambulance Charity

# Community Council Appeal 2025

Dear friends,

Please follow this link to the Wales Air Ambulance **2025 Community Council Appeal letter** concerning lifesaving missions in your locality**.** We would be grateful if you could consider it at your next council grant/donation application meeting.

If you require the Charity to fill out a grant application form, please provide the details and I will complete and return it.

Our most recent Financial Report and Accounts can be found **here**.

Any contribution you can make towards the cost of a lifesaving mission in your area would be greatly appreciated and we thank you for considering us. You will find the Wales Air Ambulance bank account details below.

Kind regards,

Hannah Mitchell, Grants and Trust Fundraiser

*Our Charity would not exist without you.*
Thank you

**Our bank details:**

Bank: Barclays  Sort code: 20-83-91

Account name: The Welsh Air Ambulance Charitable Trust  Account number: 70912999

# Apêl Cynghorau Cymuned 2025

Annwyl gyfeillion,

Dilynwch y ddolen hon i weld **llythyr Apêl Cyngor Cymuned** Ambiwlans Awyr Cymru 2025 sy'n ymwneud â theithiau sy'n achub bywydau yn eich ardal chi. Byddem yn ddiolchgar pe gallech chi ystyried hyn yng nghyfarfod nesaf eich cyfarfod yn ymwneud â chais am grant/rhodd gan y cyngor.

Os ydych am i'r Elusen lenwi ffurflen gais am grant, rhowch y manylion i mi gael ei llenwi a'i dychwelyd.

Mae ein Cyfrifon a'n Hadroddiad Ariannol diweddaraf ar gael **yma**.

Byddem yn gwerthfawrogi unrhyw gyfraniad y gallwch ei roi at gost taith sy'n achub bywydau yn eich ardal chi, a diolch am ein hystyried ni. Mae manylion cyfrif banc Ambiwlans Awyr Cymru i'w gweld isod.

Cofion cynnes,

Hannah Mitchell, Swyddog Codi Arian Grantiau ac Ymddiriedolaethau

**Ein manylion banc:**

Banc: Barclays Cod Didoli: 20-83-91

Enw'r cyfrif: Ymddiriedolaeth Elusen Ambiwlans Awyr Cymru: Rhif Cyfrif 70912999

Privacy Policy | Unsubscribe

Welsh Air Ambulance Charitable Trust

Wales Air Ambulance Charity Ty Elusen, Ffordd Angel, Llanelli Gate, Dafen, Llanelli. SA14 8LQ

**Cwmni Theatr Bara Caws Cyf.**
**Uned A1, Cibyn, Caernarfon,**
**Gwynedd, LL55 2BD.**

**01286 676 335 / 01286 675 869**

**gwybodaeth@theatrbaracaws.co.uk**

**www.theatrbaracaws.co.uk**

Annwyl Glerc y Cyngor Cymuned,

**CAIS AM GYMHORTHDAL I THEATR BARA CAWS AM Y FLWYDDYN ARIANNOL 2025/26**

Ysgrifennaf atoch ar ran Theatr Bara Caws i ofyn yn garedig i'r Cyngor Cymuned ganiatau cymhorthdal i'r cwmni am y flwyddyn ariannol bresennol 2025/26.

Mae Bara Caws yn gwmni theatr cymunedol sy'n cyflwyno gwaith gwreiddiol a pherthnasol, yn yr iaith Gymraeg yn bennaf, i'r trawstoriad ehangaf posib o'r gymuned, ac mae rhoi cyfle i gynifer o bobl â phosib fwynhau a chymryd rhan yn y celfyddydau yn greiddiol i ethos y Cwmni ers y dechrau'n deg. Rydym yn cynnig profiadau theatrig o'r radd flaenaf sy'n dod ag adloniant a chyffro, dyfeisgarwch, a pherthnasedd i galon cymunedau Cymru.

Oherwydd y gwasanaeth arbennig ac amhrisiadwy y mae Bara Caws yn ei gynnig i gymunedau erfyniwn arnoch fel Cyngor i roddi ystyriaeth ddwys i'n cais eleni. Byddai derbyn cyfraniad gan eich Cyngor yn sicrhau parhad i'n gwasanaeth hollbwysig o hybu diwylliant ac adloniant yn yr iaith Gymraeg.

Diolch,
Stephen Owen Williams (Swyddog Gweinyddiaeth a Chyllid)
**ar ran Theatr Bara Caws**

**Amgaeaf gyfrifon diweddaraf Bara Caws hyd at 31ain Mawrth 2024 a copi o'n mantolen banc diweddaraf.**

Dear Clerk of the Community Council,

**APPLICATION FOR SUBSIDY FOR THEATR BARA CAWS**
**FOR THE FINANCIAL YEAR 2025/26.**

I am writing to you on behalf of Theatr Bara Caws to kindly ask the Community Council to allow the company subsidy for the current financial year 2025/26.

Bara Caws is a community theatre company presenting original and relevant work, mainly in the Welsh language, to the widest possible cross-section of the community, and giving as many people as possible the opportunity to enjoy and participate in the arts has been core to the Company's ethos since its very beginning. We offer world-class theatrical experiences that bring entertainment and excitement, ingenuity, and relevance to the heart of Welsh communities.

Due to the special and invaluable service that Bara Caws offers to communities we urge you as a Council to give our application this year deep consideration. Receiving a contribution from your Council would ensure continuity to our vital service of promoting culture and entertainment in the Welsh language.

Thank you,
Stephen Owen Williams (Administration and Finance Officer)
**on behalf of Theatr Bara Caws**

**I enclose the latest Theatr Bara Caws accounts up to 31st March 2024 and a copy of our latest bank balance sheet.**